




NANTMOR

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth
Chambers Conservation Ltd.

Argraffiad

Argraffiadau: Fersiwn Terfynnol



Chambers Conservation Ltd

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239

Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX

www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth

- 1.0 Cyflwyniad
 - 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
 - 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth
- 2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig
- 3.0 Llinell Amser Hanesyddol
- 4.0 Dadansoddiad Gofodol
 - 4.1 Ffurf a Threfn
 - 4.2 Golygfeydd Allweddol
 - 4.3 Mannau Gleision a Choed
- 5.0 Cymeriad
 - 5.1 Trosolwg
 - 5.2 Cymeriad Pensaernïol
 - 5.3 Deunyddiau
 - 5.4 Ffiniau
 - 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill
- 6.0 Asedau Hanesyddol
 - 6.1 Dynodedig
 - 6.2 Annynodedig
- 7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth
- 8.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
- 9.0 Asedau Dynodedig Eraill
- 10.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

- 1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB

- 2.0 Deall y Materion
 - 2.1 Cyflwr
 - 2.2 Adeiladau mewn Perygl
 - 2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
- 3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
 - 3.1 Asesu Ffiniau
 - 3.2 Diogelwch Deddfwriaethol
 - 3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
 - 3.4 Cynaliadwyedd
 - 3.5 Bioamrywiaeth
- 4.0 Ymgynghoriad

Atodiadau

A. Ffynonellau



Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

- 1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.
- 1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg cyffredinol ar yr ardal gadwraeth

- 1.2.1 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 02), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.


Lleoliad a Gosodiad

- 1.2.2 Mae Nantmor yn bentref bach yng Ngwynedd, tua 2.5km i'r de o Feddgelert a 7.5km i'r gogledd-ddwyrain o Borthmadog. Cyrhaeddir y pentref o'r gorllewin tros Bont Aberglaslyn, tua phen draw hafn serth Aberglaslyn. I'r gorllewin o'r hafn cyfyd y tir i gyrraedd Moel Hebog (782m UDO) a chopon eraill crib Hebog.
- 1.2.3 I'r gogledd o'r pentref mae'r tir yn codi'n serth o'r hafn cyn disgyn i Gwm Bychan, lle bu cloddfeydd copr a lle'r erys gweddillion rhaffordd, cyn codi drachefn tua Moel Dyniewyd sy'n cyrraedd 382m UDO.
- 1.2.4 Adeiladwyd y pentref ar ffordd sy'n codi'n serth, o ba un y mae'r tir yn disgyn tua'r de gan gyrraedd y Traeth Mawr, y dirwedd a sychwyd pan godwyd cob Porthmadog ddechrau'r 19^{eg} ganrif. Yn gyffredinol mae'r allt tua'r de'n goediog, felly mae'r golygfeydd yn gyfyngedig.



01 Tua Moel Hebog o Nantmor (2021).

- 1.2.5 Mae'r pentref mewn tirwedd goediog a chreigiog iawn, eto'n agos at lefel y môr ym mhen draw'r tir a enillwyd o'r Traeth Mawr.
- 1.2.6 Dyddiad dynodi: 1974.



Awdol Gadwraeth Bresennol

1:3000 ar A4


02 Cynllun yr Awdol Gadwraeth ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

- 2.1.1 Mae tystiolaeth gref dros weithgaredd cynhanesyddol yn y cyffiniau, gan gynnwys canfyddiadau yn ymyl yr Ardal Gadwraeth. Mae tystiolaeth bosibl ynghylch anheddiad canoloesol gerllaw, y tu draw i Gwm Caeth, yn ategu'r gwerth tystiolaethol trwy ddichonoldeb cynyddu'r amgylchedd o hanes cynnar yr ardal.
- 2.1.2 Mae'r pentref presennol yn anheddiad mewn cyflwr da, o'r 19eg ganrif yn bennaf. Mae natur ddiarnhariad canol y pentref yn cyfrannu at ei werth esthetaid a hanesyddol mawr. Mae hyn yn neilltuo o amlwg mewn sawl ffordd:
- Grŵp o gwmpas Capel Peniel, gan gynnwys Glan Meirion, Bron-y-Graig a Thy Capel.
 - Mae'r cysylltiad rhwng y grŵp hwn a Rhes Peniel, y golygfeydd tua Rhes Peniel ac oddi yno o'r capel ac i Gwm Caeth yn neilltuo bwysig i'r gwerth esthetaid.
 - Grŵp yn cynnwys Arfryn ynghyd â'r pâr o dai ym Bron Meirion a Hafod, a Bryn Tirion.
- 2.1.3 Mae gosodiad tirweddol Nantmor yn hanfodol ar gyfer diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae cysylltiadau gweledol tua Moel Hebog a chrib Hebog tua'r gorllewin, Traeth Mawr i'r de a'r darren islaw Cwm Bychan tua'r gogledd oll yn cyfrannu'n sylweddol at y diddordeb arbennig. Mae'r ardal yn agos at hafn enwog Aberglaslyn, hoff fan artistiaid a beirdd, hefyd. Mae rhai golygfeydd lle mae'r berthynas hon o bwys neilltuo i ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Clustnodir y rhain yn benodol yn ddiweddarach yn yr arfarniad, ond mae'r canlynol yn enghreifftiau allweddol:
- Golygfeydd dynamig tua'r Traeth Mawr, gan ddangos y dirwedd amaethyddol a grëwyd trwy sychu ddechrau'r 19^{eg} ganrif, fu cyn hynny'n ben draw'r aber llanwol.
 - Golygfeydd i lawr allt ar draws croesfan y rheilffordd, gyda Moel Hebog y tu ôl.
 - Golygfa tua'r Gored a Gwylfa, gan ddangos aliniad y ffordd cyn dyfodiad y rheilffordd ac wedyn, a'r darren greigiog y tu cefn i Gelli'r Ynn Isaf.



03 Tua Nantmor, gan edrych ar hyd Glaslyn. (Creative Commons 2.0).



04 Richard Jones Owen, 'Glaslyn'. (Robert Roberts, Maes cyhoeddus, trwy Wikimedia Commons).

- Golygfa ddynamig o'r siop gynt (Glan Meirion), yr ysgol, ac adeiladau pwysig tua chrib Hebog.
- Golygfa ar draws tir ychydig uwch tua Moel Hebog, tros gefn Glan Meirion.
- Golygfa yn ôl tua Rhes Peniel, â chrib Hebog ym Moel Ddu yn y cefndir.
- Golygfa tua Chwm Caeth a'r grib uwch Cwm Bychan.

2.1.4 Mae gan Nantmor gymeriad pensaernïol cryf a neilltuol, gan ei fod wedi osgoi datblygu mawr diweddarach, ac adeiladau allweddol. Mae elfennau sylfaenol yn cynnwys:

- Capel Peniel amlwg, sy'n atalnodi pen dwyreiniol y pentref.
- Cyfanwydd y berthynas rhwng Capel Peniel, Rhes Peniel, Bron-y-Graig, Tŷ Capel a Glan Meirion megis canol y pentref.
- Tŷ unllawr llawn cymeriad Arfryn, ynghyd â'r pâr o dai ym Bron Meirion a Hafod, a Bryn Tirion y tu cefn.
- Perthynas yr orsaf, y groesfan a'r toriad i'r gogledd, wedi'i naddu trwy'r graig.
- Adeiladau diweddarach yn canlyn adlinellu'r ffordd, a achoswyd gan ddyfodiad y rheilffordd, gan gynnwys Pen Dyffryn a'r rhai sy'n weddill (fel Y Gored), sy'n dangos y cyfliniad blaenorol.

2.1.5 Mae'r gwerth cymunedol yn bwysig iawn i'r diddordeb arbennig, lleol a chenedlaethol fel ei gilydd. Mae hyn yn amlwg:

- Yn y modd y parhawyd i ddefnyddio Capel Peniel.
- Ym mhresenoldeb beirdd o bwys yn y pentref ac ardal ehangach (Nantmor Deudraeth), gan gynnwys Richard Jones Owen ('Glaslyn'), Dafydd Nanmor a Rhys Goch Eryri.



05 Capel Peniel a'r blwch ffôn (2021).



06 Ffordd yn disgyn heibio i Arfryn, Bron Meirion a Hafod tua'r rheilffordd (2021).

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cyn-
hanesyddol

Nanmor
Deudraeth
Ganoloesol

- 3.1.1 Trafodir hanes Nantmor yn fanwl ym mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod roi dim ond cyd-destun.
- 3.1.2 Hyd yr 20^{fed} ganrif, ac yn llawer i ddogfen, cyfeirir at y pentref fel 'Nanmor', enw sy'n deillio o'r afon sy'n llifo i ddyffryn i'r dwyrain o'r pentref cyn ymuno â Glaslyn i'r gogledd-ddwyrain o Brenteg.
- 3.1.3 Mae canfyddiadau, gan gynnwys cerrig callestr a phen byrlysg a gafwyd yn ymyl y capel, yn tystio i anheddu yn ystod y cyfnod cynhanesyddol.¹ Mae cyfeiriad at gylch cwt cerrig a waliau cysylltiedig ychydig i'r gogledd o'r pentref yng Nghwm Caeth.²
- 3.1.4 Cofnodir rhan o'r lôn uwchlaw Nantmor yn rhan o'r ffordd Rufeinig o Segontium i Domen y Mur.³
- 3.1.5 Gelwid yr ardal (a fuasai'n anheddiad gwasgaredig y pryd hwnnw, nid yn bentref neu'n dreflan) yn Nanmor Deudraeth yn y canoloesoedd, pryd y bu'n rhan o blwyf Beddgelert. Ymddengys i'r anheddu canoloesol ymgrynhoi ar dir amaethyddol gwell dyffryn Nanmor, er bod awgrym o anheddiad canoloesol yn Hendref, i'r dwyrain o'r pentref.
- 3.1.6 Un o Nantmor (neu'n fanylach, Dyffryn Nantmor) oedd y bardd pwysig Dafydd Nanmor (tua 1420-1490), a thybir iddo drigo yng Nghae Dafydd. Alltudiwyd Dafydd o Wynedd am ganu cywyddau yn null Dafydd ap Gwilym i wraig briod, Gwen o'r Ddôl, yn yr un gymdogaeth.⁴ Tybir y trigai bardd nodedig arall o'r ardal, Rhys Goch Eryri (tua 1385 – 1448) yn Hafod Garegog, tua 1.5km i'r de o'r pentref presennol.⁵
- 3.1.7 Hyd adeiladu cob Porthmadog gan William Maddocks ddechrau'r 19^{eg} ganrif, roedd y Traeth Mawr yn llanwol hyd Nantmor. Yna sychwyd y tir, gan greu gwastadedd ffrwythlon.
- 3.1.8 Cyn hynny buasai'r ardal yn bysgodfa lanwol ers y canoloesoedd ac efallai ynghynt.

¹ Lynch, Frances (1988) *Flints from Nantmor*, Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon (cyf. 49).

² <https://archaeologydataservice.ac.uk/archsearch/record.xhtml>


³ <https://archaeologydataservice.ac.uk/archsearch/record?titelid=2022076>

⁴ <https://biography.wales/article/s-DAFY-NAN-1400>

⁵ <https://biography.wales/article/s-RHYS-GOC-1400>



07 Map degwm Nantmor, yn dangos dim ond Bridge House ym Mhont Aberglaslyn, 1840



08 Rhan o fap AO 6" i'r filltir, mesurwyd 1888.

18fed a'r
19eg Ganrif

Late 19th
Century

- 3.1.9 Nid yw dechreuad y pentref wedi'i gofnodi'n dda, ond y mae bron yn gyfan gwbl o'r 19^{eg} ganrif, wedi'i adeiladu ar gyfer y diwydiant cloddio. Yr oedd cloddfeydd copr yng Nghwm Bychan gerllaw, i'r gogledd o'r pentref, a chloddwyd llechi yn y dyffrynnoedd cyfagos, gan gynnwys i'r gogledd o Gwm Caeth a Gerynt ym Mlaen Nanmor.
- 3.1.10 Mae cofnodion gweithio'r gloddfa gopr yng Nghwm Bychan yn dyddio yn ôl i 1720, gyda'r gweithgaredd mwyaf tua diwedd y 18^{fed} ganrif. Yn y 1870au gweithiwyd y gloddfa gan y Cwm Buchan Silver Lead Mining Company. Gwnaed ymdrech fyrhoedlog ac aflwyddiannus i ail-weithio'r gloddfa yn y 1920au.
- 3.1.11 Erys gweddillion allanol o'r 1920au ar y safle, gan gynnwys adfeilion rhaffordd 1.4km (a adeiladwyd gan White o Widnes). Codwyd hwn i gludo mwyn o'r gweithfeydd ym mhen uchaf y cwm i felin yn y gwaelod, yn agos at Reilffordd Ucheldir Cymru.⁶
- 3.1.12 Roedd y bardd enwog Richard Jones Owen ('Glaslyn') yn byw ym Mhen y Groes, tŷ ger Pont Aberglaslyn, ychydig i'r gogledd o Nantmor.⁷
- 3.1.13 Bach iawn y dengys map degwm 1839, ond awgryma y bu'r tir y codwyd y pentref arno'n perthyn i Gelli Ynn a Chwm Caeth. Erbyn adeg gwerthu ystâd Hafod Garegog ym 1920 gan y Cynol John Lloyd Priestley, 'roedd y rhan fwyaf o'r tir yn nwylo teulu Priestley Trefan yn ymyl Llanystumdwy.
- 3.1.14 Ymddengys i'r rhan fwyaf o ddatblygiad y pentref ddigwydd ar diroedd Priestley, gyda datblygu ar y ffordd a arweiniai o'r lôn i Benrhyndeudraeth i'r de o Bont Aberglaslyn, ar hyd y tir uwch i ddyffryn Nanmor ym Mwlchgernog.
- 3.1.15 Adeiladwyd Peniel, capel y Methodistiaid Calfinaidd, gyntaf ym 1821, ac fe'i hailadeiladwyd fel yr adeilad presennol ym 1868. Codwyd rhestai bychain ar gyfer gweithwyr y cloddfeydd copr a llechi lleol. Mae Rhes Peniel, ac ychydig adeiladau eraill gan gynnwys Bryn Tirion, yn debyg o fod o'r un cyfnod.
- 3.1.16 Dywedir y codwyd Glan Meirion, gyferbyn â chapel Peniel, yn westy, ond na chyflawnodd y diben hwnnw erioed.⁸
- 3.1.17 Ym 1890 trosglwyddwyd Nantmor o Sir Feirionnydd i Sir Gaernarfon.

⁶ Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* t. 88.

⁷ <https://biography.wales/article/s-OWEN-JON-1831>

⁸ Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG), adroddiad rhif 926 (Davidson, A), Nantmor Draft Conservation Area Appraisal, t. 7.



09 Gweddillion rhaffordd Cwm Bychan (2021).



10 Capel Peniel a Rhes Peniel. Mae'r adeiladau a'r blwch ffôn K6 oll wedi'u rhestru (2021).

- 3.1.18 Erbyn diwedd y 19^{eg} ganrif 'roedd treflan fechan wedi datblygu, yn bennaf o gwmpas cyffordd lôn Cwm Caeth. Cynhwysai gapel Peniel a'r tai drws nesaf, swyddfa'r post a siop (yng Nglan Meirion), ac ysgol gerllaw, hefyd. Gelli'r Ynn Isaf a Gelli'r Ynn Uchaf yw'r prif adeiladau ar ochr ogleddol y ffordd. Saif y cyntaf eto, er wedi'i addasu llawer, a gallai ddyddio o ddiwedd y 18^{fed} ganrif.
- 3.1.19 Ddechrau'r 20^{fed} ganrif adeiladwyd ail gapel bach, capel pren Cedron (Annibynwyr), y tu ôl i Res Peniel.
- 3.1.20 Rhyddhaodd werthu ystâd Hafod Garegog gan deulu Priestley ym 1920 ragor o dir ar gyfer adeiladu, ond dylanwadwyd ar y patrwm adeiladu gan ddyfodiad y rheilffordd.
- 3.1.21 Bwriadai'r North Wales Narrow Gauge Railways (NWNGR) osod llinell i Borthmadog trwy Feddgelert (estyniad o'r llinell i Ryd Ddu) ym 1900, ond nis adeiladwyd erioed. Amcanai'r Portmadoc, Beddgelert & South Snowdon Railway (PB&SSR) linell a gysylltasai Porthmadog a Beddgelert, i ymuno ag estyniad Beddgelert arfaethedig y NWNGR. Adeiladwyd hon yn rhannol, ond yna rhoddwyd y gorau iddi.
- 3.1.22 Ymunodd y PB&SSR a'r NWNGR i greu'r Welsh Highland Railway cyfun ym 1922, a chyrhaeddodd y rheilffordd Nantmor, o'r diwedd, ym 1923. Un o ganlyniadau adeiladu'r llinell fu adlinio'r ffordd yng Ngelli'r Ynn Uchaf.
- 3.1.23 Cynhaliodd rheilffordd y WHR wasanaethau rhwng Dinas a Phorthmadog, yn ddiweddarach tan reolaeth y Festiniog Railway (yn ystod pa gyfnod y gelwid gorsaf Nantmor yn 'Aberglaslyn'), cyn cau eto ym 1937.
- 3.1.24 Adferwyd y rheilffordd rhwng 1997 a 2011, ac yn awr mae'n cynnal gwasanaethau rhwng Caernarfon a Phorthmadog, lle cysyllta â llinell Ffestiniog. Adeiladwyd arosfa yn Nantmor a agorodd yn 2010.
- 3.1.25 Arweiniodd adlinio'r ffordd at chwalu Gelli'r Ynn Uchaf a datblygu ochr ogleddol y ffordd, llawer ohono ar hyd llwybr blaenorol y ffordd. Efallai y bu dyfodiad y rheilffordd yn gymhelliad.



09 Gorsaf Nantmor tua 1925. Sylwer ar y ffordd newydd ei hadlinellu (archif FFWHR).



10 Cerdyn post o Orsaf Nantmor ganol y 1930au.

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

- 4.1.1 Nid yw ffurf na threfn Nantmor wedi newid llawer ers cyntaf y gellid ei alw'n anheddiad ganol y 19^{eg} ganrif. Y newid mwyaf fu dyfodiad y rheilffordd yn y 1920au, a arweiniodd at adlinio'r ffordd ac adeiladu canlyniadol tai ar hyd llwybr y ffordd flaenorol, rhwng y rhyfeloedd ac yn union wedyn, yn gyffredinol.
- 4.1.2 Mae'r anheddiad bron yn gyfan gwbl linellol, gan ddilyn Brynffynnon, heblaw am ddatblygiad cynnar Rhes Peniel ar y llwybr i Gwm Caeth a Bryn Tirion (y tu ôl i Hafod).
- 4.1.3 Ymgrynhoai'r pentref, yn wreiddiol, ar y grŵp ogyrch capel Peniel, sy'n rhan neilltuol bwysig o'r pentref, gan ffurfio casgliad cryf o adeiladau hanesyddol gyda Rhes Peniel ar y lôn i Gwm Caeth.
- 4.1.4 Mae datblygiadau diweddarach wedi cynnwys rhes o dai cyngor yn ymyl capel Cedron ar ongl groes i gyfeiriad y ffordd (Brynffynnon).
- 4.1.5 Adeiladwyd sawl tŷ sengl cyfoes sylweddol, gan gynnwys Argraig i'r dwyrain o gapel Peniel; Gelli'r Ynn Uchaf (tŷ unllawr cyfoes, a gwag ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn); ac un arall drws nesaf (Craig Fach), yn ogystal â dau dŷ unllawr ar y llwybr i Gwm Caeth.

4.2 Golygfeydd Allweddol

- 4.2.1 O fewn yr Ardal Gadwraeth mae sawl golygfa allweddol sydd ynteu'n darlunio datblygiad hanesyddol y pentref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau o bwys, neu'n rhoi amgylchedd cyflawn o'i ddatblygiad yn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau neu nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal neu'r amgylchedd ohono.
- 4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, gan amgynnwys maes golwg o fan neilltuol.
- 4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gw. Ffig. 18):

A Golygfeydd dynamig tua Thraeth Mawr, y dirwedd amaethyddol a sychwyd ddechrau'r 19^{eg} ganrif, ac a fu'n ben draw'r aber llanwol cyn hynny.



12 Wedi dyfodiad y rheilffordd bu datblygu i'r gogledd o'r ffordd, yn dilyn adlinellu (2021)



13 Dengys ongl Y Gored i'r ffordd bresennol (Brynffynnon) yr aliniad gwreiddiol, a âi yn wreiddiol y tu cefn i'r tŷ ar y dde yn y llun (2021)

- B** Golygfa i doriad dwfn, creigiog y rheilffordd, gan edrych tua'r gogledd.
- C** Golygfeydd i lawr ar draws y groesfan, gyda chrib Hebog y tu cefn.
- D** Golygfa ddynamig tua'r Gored a Gwylfa, gan ddangos aliniad y ffordd cyn dyfodiad y rheilffordd ac wedyn, a'r darren greigiog y tu ôl i Gelli'r Ynn Isaf.
- E** Golygfa ddynamig i lawr i Goed Gelli'r Ynn.
- F** Golygfa ar hyd rhestai tua chrib Hebog.
- G** Golygfa ddynamig o'r siop flaenorol (Glan Meirion), yr ysgol ac adeiladau allweddol tua chrib Hebog.
- H** Golygfa ddynamig o'r tir agored o flaen capel Peniel, ynghyd â rhes o dai y tu cefn.
- I** Cipolwg i lawr at nant, rhwng adeiladau carreg.
- J** Golygfa ddynamig (agosach nag H) o dalcen y capel, y blwch ffôn K6 ac wyneb y rhes tai.
- K** Golygfa i lawr yr ala rhwng wyneb y rhes tai ac wyneb gogledd-ddwyreiniol y capel.
- L** Golygfa ar draws tir ychydig uwch tua Moel Hebog, tros gefnau Glan Meirion.
- M** Golygfa ddynamig ar hyd wyneb Rhes Peniel, tua Chwm Caeth.
- N** Golygfa ddynamig yn ôl tua Rhes Peniel, gyda Moel Hebog yn y cefndir, a'r rhes o dai wedi'u lleoli mewn tirwedd amaethyddol agored.
- O** Golygfa ddynamig tua Chwm Caeth a'r grib uwch Cwm Bychan.

4.3 Mannau Gleision a Choed

- 4.3.1 Nodweddir gofodau gleision Nantmor gan dir amaeth, gwlypdir neu goetir anffurfiol.
- 4.3.2 Mae tir amaeth agored yn cyrraedd y pentref yn y gorllewin wrth iddo godi o Draeth Mawr, gyda gwlypdiroedd yn ymestyn i mewn i'r Ardal Gadwraeth islaw Hirka, i'r de o Frynffynnon, gan ddarparu blaendir i'r ffordd sy'n codi uwchlaw.



14 Golygfa tua Rhes Peniel a chrib Hebog (Moel Ddu) (2021)



15 Golygfa o'r groesfan tua'r toriad rheilffordd a naddwyd o'r graig (2021).


- 4.3.3 Mae Coed Gelli'r Ynn yn elfen gref o'r pentref, a llawer o ymyl deheuol yr Ardal Gadwraeth. Mae hwn yn goetir dynodedig, adferedig, hynafol.
- 4.3.4 Mae tarren greigiog, noeth yn dechrau y tu ôl i Gelli'r Ynn Isaf ac yn parhau'n gefnlen i ran orllewinol yr anheddiad, gan fod yn weladwy uwchlaw Bryn Tirion a rhes y tai cyngor gynt. Mae'n gefndir pwysig.
- 4.3.5 Y tu draw i Res Peniel mae'r tir amaeth yn ymagor, yn osodiad pwysig i'r pentref ar y llwybr i Gwm Caeth, ac yn flaendir pwysig i'r grib uwchlaw Cwm Bychan.
- 4.3.6 Mae'r clwt bach o dir glas, gyda charreg noeth yn nesaf at y ffordd, y tu allan i gapel Peniel (yn nesaf at Glan Meirion), yn bwysig i gymeriad a chyd-destun yr adeiladau rhestredig yng nghraidd yr anheddiad.
- 4.3.7 Dangosir coed neu gellioedd neilltuol (yn ychwanegol at y rhai a ddynodwyd ym manau eraill) yn y cynllun yn Ffig. 19. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ardal Coed Gelli'r Ynn nas dynodwyd yn goetir hynafol adferedig.
 - Coed/coeden uwchlaw Gelli'r Ynn Isaf, rhwng y tŷ a'r rheilffordd.
 - Coed yng nghyd-destun Glan Meirion a chapel Peniel.
 - Coed ar hyd y nant, yn nesaf at gapel Cedron gynt.
 - Coed dethol o boptu Argraig.
 - Gorchudd coed y tu ôl i Fryn Tirion, yn ymestyn ymlaen uwchlaw'r rhes tai, ar hyd y darren.




16 Golygfa tua Thraeth Mawr, gyferbyn â Thyrpeg Bach (2021)



17 Crib Hebog a'r darren greigiog nesaf at Gelli'r Ynn Isaf. (2021).



Golygfeydd Allweddol
1:3000 ar A4



5.0 Cymeriad

5.1 Trosolwg

- 5.1.1 Ceir cymeriad Nantmor yn ei berthynas â'i leoliad tirweddol. Cymharol ychydig yw'r adeiladau, ac y mae golygfeydd allweddol yn eu gosod yng nghyd-destun y dirwedd y safant ynddi. Mae'r tirlun yn amrywiol, o'r tir gwastad a adenillwyd o'r Traeth Mawr yn y de-orllewin i dir uchel crib Hebog, a'r darren a'r tir uwch tua Chwm Bychan.
- 5.1.2 Mae'r cysylltiadau gweledol a ffisegol â Chwm Bychan a Chwm Caeth yn ddylanwadol megis safleoedd chwareli a phrif ffynonellau cyflogaeth cyfnod datblygu'r pentref.
- 5.1.3 Pentref o'r 19eg ganrif ydyw, gan fwyaf, er y gallai adeiladau unigol fel Gelli'r Ynn Isaf fod ychydig yn gynharach. Mae'r tarddiad mwyngloddïol, cysylltiedig â'r diwydiannau copr a llechi, i'w weld yn eglur mewn rhestai fel Rhes Peniel, Bron-y-Graig a Thŷ Capel.
- 5.1.4 Mae dyfodiad y rheilffordd wedi dylanwadu'n sylfaenol ar gymeriad y pentref, yn enwedig ymhellach oddi wrth ardal capel Peniel. Arweiniodd yr adlinellu ffyrdd canlyniadol at ragor o ddatblygu yn yr ardal hon, yn enwedig ar ochr ogleddol y ffordd. Adlewyrchodd hyn boblogrwydd cynyddol yr ardal â thwristiaid ac ymwelwyr, a datblygiad rhai o'r tai unigol mwy sylweddol.

5.2 Cymeriad Pensaernïol

- 5.2.1 Gellir gweld cymeriad presennol yr anheddiad mewn dwy ran. Mae rhannau cynnar y pentref yn adlewyrchu cyfnod ei ddatblygiad ar gyfer y diwydiannau chwarelydda a mwyngloddio lleol. Yn gyffredinol, mae datblygiadau hwyrach yn adlewyrchu poblogrwydd cynyddol y pentref ag ymwelwyr.
- 5.2.2 Mae pen dwyreiniol y pentref, ogyrch capel Peniel, yn llawn cymeriad, ac y mae'r berthynas rhwng y capel, y rhestai, Glan Meirion a gosodiad y tirlun ehangach wedi'i gadw'n dda ac yn foddhaol iawn.
- 5.2.3 Adeiladwyd neu ailadeiladwyd y Capel Peniel presennol (rhestredig Gradd II) ym 1868. Mae'r wyneb gorllewinol o gerrig petryal i wahanol faintioli â cherrig llanw llai, gyda rwbwl yn wynebu'r tai tua'r gogledd. Mae'r wyneb deheuol wedi'i rendro: mae hwn yn ddiweddar ac o ansawdd gwael. Efallai



20 Rhes tai ar hyd Brynffynnon a Moel Hebog (2021).



21 Y tu allan i gapel Peniel, efo'r blwch ffôn (2021).

fod y tai y tu ôl iddo, Bron-y-Graig a Thŷ Capel, yn gyfoes ag adeiladu'r capel cynharach.

- 5.2.4 Mae Bron-y-Graig a Thŷ Capel yn dai da, canol y 19^{eg} ganrif ac mewn cyflwr da (rhestrwyd y ddau) heblaw am estyniad bychan i'r cefn, sydd wedi'i rendro. Maent o gerrig rwbel â chonglfeini nadd mawrion. Mae'r cerrig ffenestr a grisiau'r mynedfeydd o lechfaen, ond y gweddill o garreg igneaidd lwyd, dywyll, leol, o'r darren i'r gogledd o'r pentref, gellid tybio.
- 5.2.5 Mae blwch ffôn K6, hefyd wedi'i restru, wedi goroesi, gan gyfrannu at ansawdd y gosodiad. Mae ynddo ddiffibrileiddiwr, bellach.
- 5.2.6 Tua Chwm Caeth mae'r Rhes Peniel dymunol, rhes o dai canol y 19^{eg} ganrif mewn cyflwr da, sydd wedi cadw ffenestri codi ar yr wyneb tua'r ffordd. Mae'r garreg yn llai, heb gonglfeini nadd, ac awgryma'r mortar calch cynnar ar yr wyneb gogleddol y'i gwyngalchwyd yn wreiddiol. Mae ar y talcen deheuol a'r simdde rendr diweddarach, ac ailadeiladwyd y corn simdde canolog â briciau.⁹
- 5.2.7 Ymhellach i fyny tua Chwm Caeth, adeiladwyd dau dŷ unllawr i'r dwyrain o'r llwybr yn yr 20^{fed} ganrif.
- 5.2.8 Yn y gyffordd â Brynffynnon (gyferbyn â chapel Peniel) ceir Glan Meirion, Swyddfa'r Post a siop gynt, sydd yn awr yn dŷ. Mae'r wyneb tua'r stryd wedi'i rendro, a'i linellu i ddynwared cerrig petryal. Mae yno ffenestri codi, ond rhai uPVC newyddach yw'r rhain. Mae'r gongl wedi'i lledu: efallai y bu'n fynedfa ar adeg defnydd blaenorol yr adeilad.
- 5.2.9 Yn nesaf at y capel ceir Tan-y-Bryn, bwthyn bach â pheth cymeriad: ond mae newidiadau anaddas, diweddarach, gan gynnwys ffenestri codi uPVC a phaneli ynni haul mawrion iawn ar y to wedi peri i'r bwthyn ddod yn ddolur llygad. Ychydig pellach i'r dwyrain, ac wedi'i ymbellhau'n weledol, mae tŷ sylweddol, cyfoes Argrai.
- 5.2.10 I'r gorllewin o Glan Meirion, y tu draw i'r bont fechan a'r nant, mae Tŷ'r Ysgol, sef yr ysgoldy a'r ysgol flaenorol nesaf ato. Ymddengys ei fod o ddiwedd y 19^{eg} ganrif. Mae wedi'i rendro (ddechrau'r 20^{fed} ganrif, debyg), gyda chonglfeini ac ymylwaith yn sefyll allan. Mae ganddo estyll tywydd addurnol ar y ffenestri dormer, ac y mae cerrig rwbel yn amlwg ar yr wyneb

⁹ <https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=20955>



22 Bron-y-Graig a Thŷ Capel. (2021).



23 Rhes Peniel. (2021).

deheuol. Mae'r ffenestri yn rhai diweddarach. Mae'r ysgol wedi'i newid llawer yn ddwy annedd.

- 5.2.11 Yn union nesaf at yr ysgol mae'r rhes tai ar hyd Brynffynnon (gw. Ffig. 25), yn dri thŷ o ddiwedd y 19^{eg} ganrif (fe'u dangosir ar fap 1888). Maent o rwbel lled-haenol, gan ddefnyddio cerrig mwy i greu argraff weledol, a mewnlenni rhyngddynt â cherrig llai. Mae ar Arwelfa, y tŷ canolog, rendr diweddarach. Dim ond gan Fryn Ffynnon (pen dwyreiniol y rhes) mae ffenestri codi, ac mae'r rhain yn rhai uPVC diweddarach. Mae Awel y Grug gyferbyn yn dŷ unllawr cyfoes.
- 5.2.12 Gan fynd ymhellach i lawr yr allt, mae tŷ unllawr Arfryn, y pâr o dai ym Bron Meirion a Hafod, a Bryn Tirion y tu ôl yn ffurfio grŵp llawn cymeriad. O ddechrau'r 19^{eg} ganrif, debyg, maent ar ychydig o ongl i'r ffordd. Mae Arfryn yn anarferol, gyda blociau carreg neilltuol fawr yn y wal ac yn ffurfio'r linteri. Efallai y'i haddaswyd o ddefnydd rhannol amaethyddol, yn wreiddiol. Mae Hafod wedi'i baentio, gyda ffenestri diweddarach. Mae gan Fryn Meirion beth gwaith coed cynharach ar y llawr cyntaf.
- 5.2.13 Mae'r ffordd yn gogwyddo i'r chwith o flaen Glasfryn, tŷ unllawr o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd, debyg, uwch y ffordd ac yn nodi'r man lle'i hadlinellwyd. Yn syth ymlaen mae'r Gored yn adeilad unllawr llawn cymeriad â ffenestri codi tair rhan. Wedi'i adeiladu o gerrig rwbel, gallai fod yn adeilad hŷn na'i olwg dechrau'r 20^{fed} ganrif presennol. Dangosir adeilad yma ar gynlluniau cyn adlinellu'r ffordd. Uwchlaw'r Gored mae Gwylfa, tŷ o ddiwedd y 19^{eg} ganrif, sydd wedi'i rendro.
- 5.2.14 Islaw'r Gored, mae Bryn Llinos a Phen Dyffryn, a godwyd wedi datblygu'r rheilffordd. Mae Pen Dyffryn yn adeilad o beth cymeriad, 1930au debyg, â tho llechi serth, yn union wrth y groesfan. Gyferbyn mae rhagor o anheddau cyfoes, gan gynnwys Craig Fach a'r Gelli'r Ynn Uchaf newydd.
- 5.2.15 Islaw'r rheilffordd mae Gelli'r Ynn Isaf, un o adeiladau cynharaf y pentref, o'r 18^{fed} ganrif, debyg. Mae wedi'i newid llawer, ond eto'n adeilad pwysig, yn enwedig yn y golygfeydd i fyny tuag ato. Drws nesaf mae ffermdy Gelli'r Ynn o ddechrau'r 20^{fed} ganrif.
- 5.2.16 Gyferbyn mae Hirka, bwthyn gwyliau, annedd unllawr cyfoes arall. Y tu ôl iddo mae rhai adeiladau fferm metel o ganol yr 20fed ganrif yn aros ym Mryn y Bont.



24 Glan Meirion, Swyddfa'r Post gynt, gan edrych tua chapel Peniel (2021).



25 Rhes tai ar hyd Brynffynnon, Tŷ'r Ysgol y tu draw (2021).

- 5.2.17 Ar y briffordd (A4085) rhwng y troad i'r pentref a maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol mae Tyrpeg Bach, adeilad o'r 19^{eg} ganrif o gerrig rwbel sylweddol, a thri chorn simdde. Mae'r ffenestri o ddiwedd yr 20^{fed} ganrif. Y drws nesaf mae tŷ unllawr arall o ddechrau'r 20^{fed} ganrif, sef Tywyn.

5.3 Deunyddiau a Manylion

- 5.3.1 Prif ddeunydd adeiladu Nantmor yw carreg. Daw'r rhan fwyaf o lethrau lleol, wedi'i gloddio'n benodol at y diben. Mae cerrig tywyll, creigiau igneaidd, basalt, dolerit ac ati yn amlwg, fel yw carreg lwyd ysgafnach, brasach ei hansawdd o'r darren y tu cefn i'r pentref. Defnyddir llechfaen ar gyfer manylion fel cerrig ffenestr a grisiau'n unig, gan fwyaf. Mae'r amrywio hwn yn bwysig ar gyfer y cymeriad. Mae'n debyg y buasai adeiladau hŷn fel Rhes Peniel wedi'u gwyngalchu.
- 5.3.2 Yn gyffredinol mae haenau carreg gweledig yn rwbel, weithiau â chonglfeini a manylion, ond mae cryn amrywiaeth, o rwbel anhaenol Rhes Peniel i ddefnyddio conglfeni nadd a rhagor o fanylion ym Mron-y-Graig a Thŷ Capel.
- 5.3.3 Mae peth gwaith cerrig wedi'i baentio, fel yn Hafod, er â phaentiau cyfoes yn hytrach na gwyngalch traddodiadol. Efallai fod Y Gored wedi'i wyngalchu ac yna ei baentio.
- 5.3.4 Mae Glan Meirion, hen Swyddfa'r Post, wedi'i rendro, gyda manylion yn dynwared cerrig petryal; ac y mae hwn yn debyg o fod yn wreiddiol, neu'n newid cynnar. Mae rendr o ddechrau'r 20^{fed} ganrif â chonglfeini ac architrafau wedi'u hamlygu i'w weld yn Arwelfa a Thŷ'r Ysgol.
- 5.3.5 Mae'r toeau oll o lechi, oll yn haenau rheolaidd ac wedi'u naddu gan beiriant. Gallai peth o'r llechi cynnar ddod o'r chwareli lleol yng Nghwm Caeth a Nanmor.
- 5.3.6 Mae ffenestri'r grŵp nesaf at gapel Peniel yn neilltuol bwysig, lle mae diogelu trwy restru wedi cadw ffenestri codi 8/8 cwareli bychain. Mae gan eraill, fel Arfryn, ffenestri codi 2/2 symlach.
- 5.3.7 Lle bo estyll tywydd tueddant i fod yn syml, ond eithriad pwysig, sy'n adlewyrchu ei statws, yw Tŷ'r Ysgol, er y collwyd y terfyniadau.



26 Tyrpeg Bach, o'r gorllewin (2021).



27 Wal derfyn a chrib Hebog, uwchlaw Hirka (2021).

5.4 Ffiniau

- 5.4.1 Mae diffinio gofod yn Nantmor yn hanfodol i'w gymeriad, a waliau cerrig yw'r prif fodd diffinio gofod.
- 5.4.2 Mae'n bwysig nodi, hefyd, fod diffyg diffinio, o flaen capel Peniel a'i graig waelodol noeth, er enghraifft, yn bwysig i gymeriad y lle hwnnw. Mae craig waelodol yn diffinio ymyl y ffordd, yn nesaf at yr A4085, hefyd.
- 5.4.3 Waliau sychion yw'r mwyafrif, wedi'u nodweddu gan gymysgedd o amryw gerrig igneaidd a lleol eraill, nid llechfaen yn gyffredinol. Mae cenau a mwsoglau yn bwysig i gymeriad y waliau. Mae waliau cynnar yn arbennig o bwysig lle diffiniant ymylon ffyrdd uwchlaw'r rheilffordd.
- 5.4.4 Mae gan wal derfyn Bron Meirion gerrig copa cwartsit gwalciog, anarferol.
- 5.4.5 O ddiwedd y 19^{eg} ganrif ymlaen gosodid rheiliau a gwaith haearn, a nodweddion mwy addurniadol, ar ben waliau. Mae gwaith haearn cynharach yn gyfyngedig, ond mae rheiliau wedi'u gosod i mewn i gerrig copa llechfaen y tu allan i Fryn Awel, a rhai manylion dymunol y tu allan i Dŷ'r Ysgol. Mae gan y rhestai drws nesaf amryw wahanol gerrig copa a phileri, rhai'n wreiddiol.
- 5.4.6 Erys dwy giât capel Peniel o fewn wal gerrig fwy ffurfiol ei hadeiladwaith, o gerrig fwy neu lai petryal â cherrig llanw. Mae wal dda wedi goroesi yn Rhes Peniel, â giât haearn Y Bwthyn yn nodedig.

5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

- 5.5.1 Mae gan y pentref nodweddion a gwrthrychau eraill sy'n cyfrannu at ansawdd a diddordeb yr Ardal Gadwraeth.
- 5.5.2 Mae'r graig noeth yn nodwedd bwysig, yn enwedig yn nesaf at Glan Meirion ac yng nghyffordd yr A4085.
- 5.5.3 Mae ychydig giatiau cae rhybedog o gwmpas ymyl yr Ardal Gadwraeth sy'n bwysig i gymeriad y cyfan.
- 5.5.4 Mae grisiau llechi Bron-y-Graig a Thŷ Capel yn bwysig i'r gofod rhwng y tai hyn a chapel Peniel.



28 Wal derfyn â cherrig copa cwarts, Bryn Meirion (2021).



29 Giât wedi'i rybedu cynnar, mymryn y tu allan i'r Ardal Gadwraeth (2021).

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Ceir yr asedau hanesyddol dynodedig (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) yn yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 32):

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *Amherthnasol*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

4614 – *Blwch ffôn*
20945 – *Capel Peniel*
20946 – *Bron-y-Graig*
20947 – *Tŷ Capel*
20954 – *Tegfryn (Rhes Peniel)*
20955 – *2 Rhes Peniel*
20956 – *Y Bwthyn*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol.

- *Amherthnasol*

6.1.4 Yn nesaf at yr Ardal Gadwraeth.

- 20959 – *Pen-y-Groes*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Clustnodwyd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol yn rhai o ddiddordeb lleol arbennig (gw. Ffig. 33):

- *Tyrpeg Bach*
- *Gelli'r Ynn Isaf*
- *Pen Dyffryn*
- *Y Gored*
- *Bryn Tirion*
- *Arfryn*
- *Bron Meirion*



30 Arfryn (2021).



31 Gelli'r Ynn Isaf (2021).

- *Hafod*
- *Brynffynon Terrace (tri thŷ)*
- *Tŷ'r Ysgol*
- *Glan Meirion*
- *Capel Cedron.*

6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

- 6.3.1 Dylid hefyd ystyried 'Cofrestr Adeiladau Traddodiadol' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth

- 7.1.1 Yn dilyn yr arfarniad nid argymhellir unrhyw newidiadau yn ffin yr Ardal Gadwraeth.

8.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

- 8.1.1 Bu Nantmor ar lwybr Rhufeinig o Segontium i Domen y Mur, a chofnodwyd gweddillion cynhanesyddol yn yr Ardal Gadwraeth a'i chyffiniau cyfagos. O ganlyniad, dichon fod yno gryn weddillion archeolegol.

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

9.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA)

- 9.1.1 Mae SoDdGA Coedydd Beddgelert a Cheunant Aberglaslyn yn gorgyffwrdd ag ymyl gogleddol yr Ardal Gadwraeth, ac y mae yno gryn goetir deri dail digoes.
- 9.1.2 Mae SoDdGA Glaslyn yn nesaf at yr Ardal Gadwraeth. Corsydd, porfeydd gorlifdir, cynefin afonol, planhigion fasgwlaidd, a choetir gwlyb glan afon sydd yno gan fwyaf, ac y mae nifer dda o rywogaethau adar yn magu yno. Mae'n gartref i falwen brin (*Vertigo lilljeborgi*) a nythod magu ystlunod trwyn pedol lleiaf, hefyd.

- 9.1.3 Mae Coedydd Nanmor yn SoDdGA ychwanegol, tua 0.5km i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth.
- 9.1.4 Mae rhan o'r coetir i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA), hefyd. *Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion / Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites*.
- 9.1.1 Mae Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) yn safle a ddynodwyd tan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o'r rhwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Natura o bwys rhyngwladol ar gyfer amddiffyn amryw gynefinoedd a rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt, bregus. Mae AGA yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau tir a môr fel ei gilydd (arall nag adar, a ddiogelir ar wahân) a restrir yn y Gyfarwydddeb Cynefinoedd.


9.2 Gorchmynion Cadw Coed

- 9.2.1 Mae sawl gorchymyn cadw coed grŵp/coetir yn yr Ardal Gadwraeth:
- Coed i'r gogledd-ddwyrain o gapel Peniel.
 - Caerns 29/W01. Coed collddail cymysg, Bedw, Sycamorwydd, Deri, Pefrwydd a Chelyn, gan fwyaf.
 - Coed i'r gorllewin o'r orsaf (Gelli'r Ynn).
 - SNP049/W01. Bedw, Ffawydd, Sycamorwydd ac Ynn cymysg, gan fwyaf.
 - Coed i'r de o'r orsaf ac ar hyd y rheilffordd (Gelli'r Ynn)
 - SNP049/W02. Bedw, Ffawydd, Sycamorwydd ac Ynn cymysg.


9.3 Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig

- 9.3.1 Mae Nantmor tuag 1km i'r gogledd o'r Dirwedd Hanesyddol Ddynodedig. HLW (Gw) 7 – Aberglaslyn.¹⁰

¹⁰ [https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=&id=HLW%20\(Gw\)%207](https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=&id=HLW%20(Gw)%207)



Adeiladau Rhestredig
1:3000 ar A4



Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

1:3000 ar A4

33 Adeiladau o Bwys Lleol ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)


10.0 Bioamrywiaeth

10.1 Coed

- 10.1.1 Gw. 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.
- 10.1.2 Gw. 4.3 am ddisgrifiad o goed/coetiroedd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.
- 10.1.3 Ceir coetiroedd hynafol adferedig i'r gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin a'r de o'r Ardal Gadwraeth yng Ngelli'r Ynn, tua Chwm Bychan a Chwm Caeth.
- 10.1.4 Mae **Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru** yn weithredol o fewn sawl Ardal Gadwraeth, gan gynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac mae'n ceisio amddiffyn ac adfer cynefinoedd coetiroedd prin yr lwerydd trwy reoli Rhododendron ponticum a rhywogaethau estron ymledol eraill. Pan gynigir gwaith, cynlluniau plannu, tirlunio, cynnal a chadw neu ddatblygiad o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn, dylid ystyried bioddiogelwch, atal cyflwyno rhywogaethau ymledol newydd, a'r effaith bosibl ar gynefinoedd fforestydd glaw Celtaidd cyfagos. Dylid ceisio cyngor cynnar gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lle gall cynigion effeithio ar ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu gynnwys disodli rhywogaethau, clirio llystyfiant neu reoli cynefinoedd.

10.2 Rhywogaethau Gwarchodedig

- 10.2.1 Mae Bwlch Aberglaslyn i'r gorllewin o'r Ardal Gadwraeth yn adnabyddus, yn arbennig oherwydd ei fwsoglau, ei redyn, ei lysiau'r afu a'i genau.
- 10.2.2 Mae pryfed yn ffynnu yn amgylchedd llaith coetiroedd ardal Nantmor, Bwlch Aberglaslyn a'r warchodfa natur yn ymyl Hafod Garegog, gan eu gwneud yn atyniadol i adar mudol sy'n magu, gan gynnwys:
 - Y Gwybedog Cefnddu
 - Telor y Coed
 - Cornhedydd y Coed
 - Y Tingoch





YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cynodeb o Ddadansoddiad CGCB

CRYFDERAU

- Diffyg trafnidiaeth sylweddol trwy graidd y pentref.
- Amryw adeiladau rhestredig da eu cyflwr a chraidd hanesyddol cryf i'r anheddiad o amgylch capel Peniel.
- Gosodiad tirweddol a golygfeydd tua chrib Hebog, Traeth Mawr a'r bryniau i gyfeiriad Cwm Bychan.
- Presenoldeb Rheilffordd Eryri yn y pentref.
- Agosrwydd at Fwlch Aberglaslyn a maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.



GWENDIDAU


- Diffyg cyfleusterau cymunedol.
- Rhai adeiladau wedi'i newid i raddau anaddas.
- Peth wmbredd o lety gwyliau, Air BnB ac ail gartrefi yn y pentref a'r cyffiniau.
- Datblygu llawer o adeiladau cyfoes, di-nod, tai unllawr yn enwedig, ar ymylon yr Ardal Gadwraeth, gan erydu ei chymeriad arbennig.



Nantmor


CYFLEOEDD

- Cyflwyno cyfleusterau cymunedol.
- Rhoi technolegau cynaliadwy ar waith mewn modd sensitif ac uwchraddio strwythurau lle bo'n addas.
- Gwell cysylltiadau â'r dirwedd ehangach.
- Datblygu cyfleusterau twristaidd ar raddfa fechan sy'n ennyn diddordeb pobl leol ac yn eu cyflogi?
- Ehangu golygfeydd er mwyn cyflwyno dehongli'r pentref a'i gysylltiadau ag archeoleg ddiwydiannol leol.
- Ailddatblygu safle presennol Gelli'r Ynn Uchaf gan ddefnyddio egwyddorion cynllunio da a



BYGYTHION

- Defnydd capel Peniel yn y dyfodol os â'n segur.
- Defnydd cynyddol o dai'r pentref ar gyfer ail gartrefi, llety gwyliau ac eiddo Air BnB.
- Rhagor o newid anaddas oni chyflwynir rhagor o gamau.
- Defnydd Capel Cedron?
- Rhagor o ddatblygu anheddau cyfoes o ansawdd anaddas.
- Datblygu anaddas safle presennol Gelli'r Ynn Uchaf.



2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

- 2.1.1 Yn anheddiad o'r 19^{eg} ganrif gan fwyaf, mae Nantmor yn cadw llawer o'i gymeriad, ac y mae'r craidd o adeiladau hanesyddol o gwmpas capel Peniel mewn cyflwr da ac o werth esthetaid a hanesyddol mawr.
- 2.1.2 Y tu allan i'r grŵp hwn, fodd bynnag, mae newidiadau diweddarach yn bygwth ei werth esthetaid. Mae hyn yn cynnwys newid adeiladau hanesyddol a datblygu llanwol.
- 2.1.3 Ar sail y gwaith maes a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn, mae holl adeiladau Nantmor yn cael eu defnyddio'n fuddiol ar hyn o bryd.
- 2.1.4 Mae rhai materion pwysig sy'n effeithio er gwaeth ar ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Maent yn cynnwys:
- Disodli gwaith coed, ffenestri a drysau hanesyddol gan rai cyfoes, uPVC fel arfer, mewn adeiladau nas rhestrwyd.
 - Datblygiadau neu estyniadau anaddas neu o ansawdd gwael.
 - Datblygiadau ar dir fu'n agored, neu rai llanwol, sydd ag effaith andwyol ar yr Ardal Gadwraeth.
- 2.1.5 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:
- Gosod ffenestri a drysau newydd ar adeiladau allweddol yn yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys llawer o'r rhes tai ar hyd Brynffynnon a Thŷ'r Ysgol.
 - Mae gan rai adeiladau ffenestri codi uPVC (Glan Meirion, Bryn Ffynnon, Tan-y-Bryn, er enghraifft) sydd, er yn well na rhai o'r dewisiadau eraill, yn anaddas mewn Ardal Gadwraeth.
 - Ymddengys fod y rendr ar wyneb deheuol capel Peniel o ddeunyddiau anaddas (rendr sment, debyg), ac nid yw'n addas, nac yn dechnegol nac yn esthetaid.
 - Nid yw ychwanegu paneli ynni haul at du blaen Tan-y-Bryn yn addas. Er y dylid hyrwyddo gwaith gwella addas a defnydd adnewyddion, ni ddylai fod ar draul cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.



35 Mae tŷ unllawr presennol, cyfoes o ansawdd gwael yng Ngelli'r Ynn Uchaf yn fygythiad ac yn gyfle. Golwg o gyfeiriad Gorsaf Rheilffordd Eryri. (2021)



36 Rendr ar wyneb deheuol capel rhestredig Peniel. Paneli ynni haul yn amlwg iawn ar du Tan-y-Bryn. (2021)

2.2 Adeiladau Mewn Perygl

- 2.2.1 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw adeiladau mewn perygl yn yr Ardal Gadwraeth, er os daw capel Peniel yn segur byddai'n bwysig canfod defnydd addas a chynaliadwy.

2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB

- 2.3.1 Cynhaliwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth Nantmor, Defnyddir hwn i glustnodi rhai o'r problemau, ond hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr Ardal Gadwraeth. Yna bydd yn sail i greu'r rhai o'r cynigion rheoli adeiladol sy'n canlyn.
- 2.3.2 Dengys y dadansoddiad CGCB sawl pen gweithredu allweddol i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Annog ailddatblygu safle presennol Gelli'r Ynn Uchaf i safon uchel, gan ddefnyddio egwyddorion cynllunio da a chanlyniadau cynaliadwy.
 - Ceisio gwella golwg rhai o'r adeiladau pwysig eraill. Rhes Brynffynnon a Thŷ'r Ysgol, er enghraifft.
 - Cynorthwyo ailosod manylion adeiladu traddodiadol a gwella cynaliadwy ar gyfer gwell perfformiad amgylcheddol, gan gynnal cymeriad arbennig yr ardal ar yr un pryd.
 - Ystyried gwell cysylltiadau i gerddwyr â'r tirlun ehangach. Gallai llwybr cerdded cylchol yn cysylltu Cwm Caeth, Cwm Bychan a'r pentref, er enghraifft, gynnwys dehongliad o'r dechreuad diwydiannol a darparu cyfle economaidd ar gyfer cyfleusterau yn y pentref.
 - Yn ddichonol, gellid wrth gyfleusterau twristaidd ar raddfa fechan ennyn diddordeb pobl leol a'u cyflogi, yn hytrach nag ail gartrefi neu ormodedd o eiddo AirBnB.
- 2.3.3 Mae'r CGCB yn adnabod sawl gwendid a bygythiad a glustnodir yn bennau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ceisio ymgysylltu adeiladol er mwyn dadwneud newidiadau difrodus i adeiladau a nodweddion pwysig.



37 Mae modd ymgysylltu'n well â'r tirlun ehangach a chysylltu ag ardaloedd y chwareli gynt a'r anheddiad cynnar. Golygfa tua Chwm Caeth (2021).

- Cadw golwg ar ddefnydd capel Peniel a chanfod defnydd newydd addas os â'n segur.
- Sicrhau diogelu gofodau gleision a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau datblygu.
- Gwell rheolaeth ar ddatblygiadau ymylol a llanwol, hyrwyddo gwell ansawdd cynllunio ac atal datblygu lle bo'n anaddas.
- Perygl ailddatblygu anaddas ar safle presennol Gelli'r Ynn Uchaf, gan ddefnyddio egwyddorion cynllunio da a chanlyniadau cynaliadwy.

3.0 Rheolaeth Gadarnhaol

3.1 Newid Ffiniau

3.1.1 Nid arfaethir newid ffin yr Ardal Gadwraeth.

3.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Ceir cyd-destun fframwaith deddfwriaethol Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol **Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain**. Rydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.

3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Dichon i fynd i'r afael â rhai o'r problemau (gw. 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth wella ei diddordeb arbennig yn sylweddol. Hyn trwy rymoedd neu arweiniad cynllunio estynedig.

3.3.2 Mae pynciau a chyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Gweithrediad dichonol camau rheoli datblygu (cyfarwyddyd Erthygl 4) i reoli colli manylion a nodweddion gwaith coed hanesyddol.
- Dichonoldeb ymgysylltu â pherchnogion safle Gelli'r Ynn Uchaf i annog defnydd addas o egwyddorion cynllunio da a chanlyniadau cynaliadwy.
- Ystyried gwell cysylltiadau i gerddwyr â'r tirlun ehangach. Gallai llwybr cerdded cylchol yn cysylltu Cwm Caeth, Cwm

Bychan a'r pentref, er enghraifft, gynnwys dehongliad o'r dechreuad diwydiannol a darparu cyfle economaidd ar gyfer cyfleusterau yn y pentref.

- Ceisio rheoli datblygu llanwol a datblygu o ansawdd anaddas ar ymylon yr Ardal Gadwraeth.
- Annog ailosod manylion gwaith coed addasach ar adeiladau o bwys lleol, yn lle rhai uPVC cyfoes.

3.3.3 Gan ddefnyddio'r dulliau uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gw. isod), codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid addas. I gynnwys:

- Ymwybyddiaeth â pherchnogion a chymuned Nantmor.
- Codi ymwybyddiaeth a medrau (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) ar gyfer contractwyr a chrefftwyr lleol.

3.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

3.4.1 Ceir arweiniad ynghylch yr arddull cywir ar gyfer cyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau angenrheidiol yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, yn y ddogfen: ***Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol.***

3.4.2 Mae gan Nantmor gyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fechan, a dechreuwyd defnyddio'r rhain gerllaw eisoes. Ymddengys na weithredwyd cynllun y cafodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ganiatâd ar ei gyfer yng Nghwm Bychan.

3.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau cynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn effeithio er gwaeth ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed o bwys hanfodol i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetig. Amddiffynnir amrywiaeth o goed gan orchmynion cadw (gw. 8.3). Clustnodwyd coed eraill yn rhai ag arwyddocâd yn yr ardal gadwraeth (gw. 4.3).

- 3.5.2 Mae dichonoldeb gwella bioamrywiaeth yn yr Ardal Gadwraeth yn sylweddol. Gallai gweithredu enghreifftiol gynnwys:
- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
 - Lle bo'n addas ar gyfer y dreftadaeth adeiledig, gall defnyddio toeau glaswellt a nodweddion mewnadeiledig eraill (fel bo'n briodol) mewn estyniadau neu adeiladau newydd, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
 - Rheoli a gwella gwrychoedd.
 - Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladu.
 - Caniatáu i goed aeddfedu heb ymyrraeth.
 - Cadw coed marw safadwy a chreu pentyrrau o bren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.
- 3.5.3 Sicrhau y caiff datblygu ei lywio gan ardaloedd cymeriad neilltuol yr Ardal Gadwraeth, a'i fod yn gydredd â hwy, ac yn ystyried tystiolaeth arall o gymeriad hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd y cyffiniau.
- 3.5.4 Sicrhau y bydd cynigion datblygu'n gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.
- 3.5.5 Gweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithredu prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.
- 3.5.6 Annog datblygu i gynnwys camau cyfrannu'n adeiladol at fioamrywiaeth gyfan yr ardal.
- 3.5.7 Gwella seilwaith gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio er gwaeth ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

4.0 Ymgynghoriad

- 4.1.1 Bu drafft Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn destun yr ymgynghoriad canlynol:
- Cyngor Cymuned Beddgelert (29/11/2021)
 - Trwy wefan y Parc Cenedlaethol.

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynnonellau

Y prif ffynonellau gwybodaeth gyhoeddedig a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad hwn fu:

Amryw (1960) *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire (Vol II, Central)*. CBHC.

Clarke, M. (1961) *Church building and church restoration in Caernarvonshire during the nineteenth century*, Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, Cyf. 22

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association ym 1917)

Gresham, C (1978), *Nanmor Deudraeth* Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd, Cyf. VIII, Rhan II.

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester)

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry* (CBHC 2015).

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11)* (argraffiad 1952).

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H a North H. L. 'The Old Churches of Snowdonia' (1924).

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Lynch, Frances (1988) *Flints from Nantmor*, Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon (Cyf. 49).

Lynch, Frances, *A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd*, HMSO, 1995.

Pennant, T. (1781), *A Tour in Wales* (London) (1773-76), *Cafwyd mynediad trwy:*
<https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales>

Parkinson, A.J. (1989) *Pen-y-bryn Additional notes. Detailed notes for the Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales* NA/CA/89/118 (i)

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. a Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) adroddiad rhif 55. *Pen-y-Bryn, Archaeological Assessment*, 1992.

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) adroddiad rhif 926 (Davidson, A), *Nantmor Draft Conservation Area Appraisal*, 2011.

https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/North%20Wales%20Snowdonia%20National%20Park_EN.pdf